

TUDALEN 63

Cofnodion cyfarfod ychwanegol o Bwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau'r Cyngor a gynhaliwyd o bell, drwy fideo-gynadledda Zoom, am 6.30pm nos Lun, 7 Chwefror 2022.

YN BRESENNOL: - Cynghorydd Mair Rowlands (Cadeirydd), Cynghorwyr Les Day, Medwyn Hughes, Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, Kieran Jones, Enid Parry, Nigel Pickavance, Luke Tugwell, John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Clerc y Dref dros dro), Delyth Davies (Cyfieithydd).

236/22 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Owen Hurcum.

2327/22 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

238/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

239/22 TRAFOD DYFODOL Y LLE CHWARAE AR Y PIER

Roedd y llefydd chwarae ar y Pier wedi eu cau i'r cyhoedd, tua phedair blynedd yn ôl, oherwydd pryderon am ddiogelwch yr offer chwarae. Ystyriwyd yr opsiynau o ran yr offer chwarae. Roedd y rhain yn cynnwys; gohirio penderfyniad, adnewyddu'r offer ac uwchraddio'r matin, a fyddai'n costio oddeutu £25-£30,000, tynnu'r offer chwarae a gwneud y llawr yn ddiogel, a fyddai'n costio oddeutu £4,000 - £5,000, neu brynu offer a matin newydd ac amcangyfrifir y byddai hynny'n costio dros £50,000.

PENDERFYNWYD (i) y byddai Clerc y Dref yn cysylltu â RoSPA i weld beth yw oes yr offer chwarae presennol.

(ii) cyflogi Pensaer Tirlun i baratoi cynigion ar gyfer holl ardal Maes Parcio'r Pier.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35pm

ACTING TOWN CLERK – Martin Hanks – CLERC Y DREF DROS DRO